***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/10/2017.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 2. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 11

# RHYDDHAD BONDIAU BUDDSODDI CYLLID ARALL

## RHAN 1

## RHAGARWEINIAD

*Dehongli*

2 Yn yr Atodlen hon—

mae i "asedau bond", "deiliad bond", "dyroddwr bond" a "cyfalaf" yr ystyron a roddir i "bond assets", "bond-holder", "bond-issuer" a "capital" yn adran 564G o Ddeddf Treth Incwm 2007 (p. 3);

ystyr "bond buddsoddi cyllid arall" ("*alternative finance investment bond*") yw trefniadau y mae adran 564G o Ddeddf Treth Incwm 2007 (p. 3) (trefniadau o ran bondiau buddsoddi) yn gymwys iddynt;

ystyr "buddiant cymwys" ("*qualifying interest*") yw prif fuddiant mewn tir ac eithrio les am gyfnod o 21 mlynedd neu lai;

ystyr "rhagnodedig" ("*prescribed*") yw rhagnodedig mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru;

mae "trefniadau" ("*arrangements*") yn cynnwys unrhyw gytundeb, unrhyw ddealltwriaeth, unrhyw gynllun, unrhyw drafodiad neu unrhyw gyfres o unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny (pa un a ellir ei orfodi neu ei gorfodi'n gyfreithiol ai peidio).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 11 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 11 para. 2 mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/953, **ergl. 2(e)(i)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/10/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 2.